## Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth: Telerau ac Amodau Cynllun 2026

### Trosolwg

Mae Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth 2026 yn cynnig cymhelliant ariannol i fyfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) sydd yn cychwyn rhaglen AGA ôl-raddedig uwchradd ym mis Medi 2026 a fydd yn eu galluogi i addysgu arbenigeddau sy'n benodol i'w pwnc.

### Cefndir

1. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ddarparu cymorth ariannol o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 ar gyfer:
    a. hybu recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu
    b. darparu ar gyfer cynhaliaeth person tra bydd yn ymgymryd â chwrs o'r fath
    c. talu neu ddarparu buddion eraill i athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu.

2. Gwneir Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth: Telerau ac Amodau Cynllun 2026 ("y Cynllun hwn") drwy arfer y pwerau hynny.

3. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2026 ac mae'n berthnasol i Gymru. Mae'r Cynllun hwn yn disodli Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth 2025.

4. Gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar y Cynllun hwn o dan adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 i gynorthwyo myfyrwyr a darparwyr rhaglenni cymwys. Rhaid i unigolion sy'n gwneud cais am y cymhelliant hwn a'r rhai sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cynllun hwn roi sylw i'r canllawiau hynny. Mae'r canllawiau ar gyfer y flwyddyn hon o'r cynllun i'w gweld yn y tudalennau hyn:
    a. Canllawiau myfyrwyr: Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth 2025: canllawiau i fyfyrwyr | LLYW.CYMRU
    b. Canllawiau darparwyr AGA: Cymhellion Addysg Gychwynnol i Athrawon: canllawiau i weinyddwyr | LLYW. CYMRU

5. Mae'r ddogfen hon yn nodi amlinelliad byr o sut y bydd y Cynllun hwn yn gweithredu a dibenion talu'r grant cymhelliant.

## Crynodeb o'r Cynllun hwn

6. Mae'r Cynllun hwn yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau cymhelliant i unigolion cymwys sy'n dilyn rhaglen gymwys er mwyn ennill statws athro cymwysedig (SAC) yng Nghymru mewn pynciau penodedig.

7. Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu nifer y rhandaliadau a phryd y telir rhandaliadau i unigolion cymwys. Bydd y taliad fel arfer yn cael ei rannu'n dri rhandaliad. Gellir hawlio'r rhandaliad cyntaf yn ystod rhaglen gymwys, y rhandaliad SAC ar ôl i'r unigolyn cymwys lwyddo i ennill statws athro cymwysedig, a'r rhandaliad Sefydlu pan fydd yr unigolyn wedi cwblhau cyfnod sefydlu yn llwyddiannus mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, a dim ond y rhai a dderbyniodd y ddau randaliad cyntaf gaiff hawlio hwnnw. Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch a fydd unrhyw daliad o dan y Cynllun hwn yn cael ei wneud i unrhyw unigolyn cymwys yn derfynol.

## Dehongli

8. Ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddibenion y Cynllun hwn:

ystyr "rhaglen gymwys" ("*eligible programme*") yw rhaglen sydd:

yn rhaglen AGA ôl-raddedig uwchradd amser llawn neu ran-amser sy'n arwain at statws athro cymwysedig, sydd wedi'i hachredu gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg, a sefydlwyd yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017

ystyr "myfyriwr cymwys" ("*eligible student*") yw unigolyn â hawl ganddo i gael cymorth o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac sydd mewn grym ar y pryd, fel y mae'r rheoliadau hynny yn gymwys i'r cwrs hwnnw[1]

ystyr "cyflogedig" ("*employed*") yw wedi'i gyflogi o dan gontract cyflogaeth neu wedi'i gyflogi i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd arall heblaw o dan gontract cyflogaeth, a dylid dehongli "cyflogaeth" ("employment") yn unol â hynny

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw cynllun a wneir o dan reoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012, gan gynnwys unrhyw gynllun diwygiedig neu gynllun newydd a gyflwynwyd

ystyr "rhaglen AGA ôl-raddedig" ("*postgraduate ITE programme*") yw rhaglen addysg gychwynnol athrawon ôl-raddedig achrededig amser llawn, ran-amser neu hyblyg, a ddarperir gan ddarparwr AGA yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, mae "hyblyg" yn

[1] Y Rheoliadau sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n ymestyn o 1 Medi 2026 i 31 Awst 2027 yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (O.S. 2018 Rhif 191 (Cy. 42)). Bydd y Rheoliadau hyn yn parhau i fod mewn grym yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27.

dynodi bod hyd a phatrwm y rhaglen yn cael eu penderfynu yn ôl profiad ac anghenion hyfforddiant y myfyriwr.

mae i “statws athro cymwysedig neu statws athrawes gymwysedig” yr ystyr a roddir i “*qualified teacher*” gan adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002: sef “a person who satisfies requirements specified in regulations” a wnaed o dan yr adran honno.

## Grantiau cymhelliant

9. Caiff Gweinidogion Cymru, yn ôl eu disgresiwn, dalu grantiau ("grantiau cymhelliant") ar ffurf cymhellion i unigolion sy'n bodloni gofynion paragraffau 111, **Error! Reference source not found.**2, 13, 14, yn ddarostyngedig i baragraff 100.

10. Mae’r grantiau cymhelliant a roddir o dan y Cynllun hwn yn ddarostyngedig i’r amodau a bennir ym mharagraffau 16 i 222.

## Pwy sy'n gymwys i gael grantiau cymhelliant

11. I fod yn gymwys i gael y grant cymhelliant hwn, rhaid i unigolyn:
    a. fod wedi dilyn rhaglen gymwys yng Nghymru a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Medi 2026 ond cyn 31 Awst 2027;
    b. bod yn fyfyriwr cymwys;
    c. peidio â bod wedi cymhwyso fel athro eisoes wrth ddechrau astudio tuag at SAC;
    d. wrth ddechrau astudio tuag at SAC, peidio â bod wedi'i gyflogi i addysgu mewn ysgol neu sefydliad arall fel athro;
    e. peidio â bod yn dilyn hyfforddiant a drefnwyd o dan gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth;
    f. peidio â bod yn dilyn cwrs addysg bellach o unrhyw fath;
    g. bod yn astudio, yn llwyr neu’n bennaf, un neu ragor o’r pynciau â blaenoriaeth canlynol neu ar raglen gymwys: Bioleg, Cemeg, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Ddigidol a/neu Gyfrifiadureg, Mathemateg, Ieithoedd Rhyngwladol, Ffiseg, Cymraeg
    h. pan gaiff ei dderbyn i’r rhaglen gymwys, bod yn ddeiliad gradd gyntaf neu gymhwyster cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig, neu radd gyfwerth neu gymhwyster arall cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad tramor, o ddosbarth cyntaf, 2.1 neu 2.2, neu PhD neu radd Meistr neu gyfwerth. Nid yw’n ofynnol bod y radd gyntaf neu’r cymhwyster cyfwerth yn yr un pwnc â’r pwnc sy’n cael ei astudio ar y rhaglen AGA ôl-raddedig.

12. Mewn perthynas â rhandaliad y grant cymhelliant a delir yn ystod y rhaglen, rhaid i unigolyn:
    a. fodloni'r gofynion cymhwysedd a nodir o dan baragraff 111

    b. bwriadu parhau â'i raglen gymwys a'i chwblhau
    c. bodloni unrhyw ofynion ychwanegol fel y'u nodir yn y canllawiau a gyhoeddwyd o dan baragraff 4 y Cynllun hwn, y mae'n rhaid i unigolion sy'n hawlio'r grant cymhelliant hwn a'r rhai sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cynllun hwn roi sylw iddynt.

13. Mewn perthynas â rhandaliad SAC y grant cymhelliant hwn, rhaid i unigolyn:
    a. fod wedi bodloni'r gofynion cymhwysedd ar gyfer y grant cymhelliant hwn a bod wedi derbyn y rhandaliad yn ystod y rhaglen, yn unol â pharagraffau 11 a 12
    b. bod wedi cwblhau rhaglen gymwys yn llwyddiannus ac ennill SAC yn unol â Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012.

14. Mewn perthynas â rhandaliad Sefydlu'r grant cymhelliant, rhaid i unigolyn:
    a. fod wedi bodloni'r gofynion cymhwysedd ar gyfer y grant cymhelliant hwn a bod wedi derbyn y rhandaliad yn ystod y rhaglen a'r rhandaliad SAC, yn unol â pharagraffau 11, **Error! Reference source not found.**2 ac 13
    b. bod wedi cwblhau cyfnod sefydlu yn llwyddiannus o fewn tair blynedd ar ôl ennill SAC, mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru yn unol â Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015
    c. hawlio o fewn yr amserlenni penodedig fel y'u nodir yn y canllawiau a gyhoeddwyd o dan baragraff 4 y Cynllun hwn.

15. Mae unigolion sy'n gymwys ar gyfer y cynllun cymhelliant hwn hefyd yn gymwys i hawlio cymhellion eraill ar gyfer addysg gychwynnol athrawon sydd ar gael yng Nghymru, ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf cymhwysedd y cynlluniau hynny yn y flwyddyn astudio academaidd berthnasol.

## Amodau

16. Ni thelir grant o dan y cynllun hwn i unigolyn oni fydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru ym mha bynnag ffurf, ar ba bynnag adeg a chan gynnwys pa bynnag fanylion y caiff Gweinidogion Cymru eu penderfynu o bryd i'w gilydd.

17. Caiff Gweinidogion Cymru, yn ôl eu disgresiwn, benderfynu peidio â thalu grant cymhelliant i unigolion a gafodd eu derbyn ar raglen gymwys wedi i'r rhaglen honno gyrraedd y nifer derbyn a ddyrannwyd ar ei chyfer (fel y'i pennwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg).

18. Ni fydd unigolyn sy'n gymwys i gael grant cymhelliant ac sy'n ymuno â rhaglen gymwys, ond sy'n gadael ei raglen cyn ei chwblhau, neu sy'n methu â chael SAC neu gwblhau cyfnod sefydlu yn foddhaol, fel y bo'n berthnasol, yn gymwys i gael

unrhyw randaliadau grant pellach sy'n ychwanegol at y rhai a dalwyd eisoes i'r unigolyn, yn unol ag unrhyw ganllawiau a rhaglen daliadau a lunnir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.

19. Bydd grantiau cymhelliant (boed yn ystod y rhaglen, yn rhandaliad SAC neu'n rhandaliad Sefydlu) a all fod yn ddyledus i unigolion cymwys a ddechreuodd raglen gymwys mewn un flwyddyn academaidd ond yna, ar ôl gohirio, a ailgydiodd yn y rhaglen y flwyddyn academaidd nesaf, yn parhau i gael eu talu yn ôl cyfradd y grant cymhelliant (os o gwbl) o dan y cynllun a oedd yn berthnasol y flwyddyn academaidd y dechreuodd eu hastudiaethau, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn mynegi yn ysgrifenedig eu bod, yn ôl eu disgresiwn, yn penderfynu'n wahanol.

20. Pan fo unigolyn sy'n gymwys o dan y cynllun hwn wedi derbyn, cyn 1 Medi 2026, naill ai'n llawn neu'n rhannol, unrhyw daliad grant cymhelliant sy'n gysylltiedig â rhaglen AGA arbenigedd pwnc uwchradd o dan unrhyw gynlluniau neu drefniadau eraill mewn cysylltiad ag ymgymryd ag addysg gychwynnol athrawon, bydd y taliadau grant cymhelliant sy'n ddyledus iddo o dan y cynllun hwn yn cael eu lleihau ar sail swm sy'n cyfateb i'r taliadau grant cymhelliant a dderbyniwyd ganddo yn flaenorol o dan y cynlluniau neu'r trefniadau eraill hynny. Mae hyn hefyd yn berthnasol i grantiau cymhelliant a dderbynnir gan unigolion cymwys cyn 1 Medi 2026 o dan unrhyw drefniadau sy'n berthnasol yn Lloegr y bodlonwyd Gweinidogion Cymru eu bod yn cyfateb i'r rhai a wnaed mewn perthynas â grantiau cymhelliant yn unol â'r cynllun hwn.

21. Gellir cadw taliadau yn ôl sy'n ddyledus i unigolion cymwys sy'n tynnu'n ôl o raglen AGA gymwys, nad ydynt yn cyflawni SAC, neu sy'n methu â dechrau neu gwblhau cyfnod sefydlu, yn unol ag unrhyw ganllawiau a rhaglen daliadau a lunnir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.

22. Caiff Gweinidogion Cymru fynnu bod rhan neu'r cyfan o unrhyw grant cymhelliant a dalwyd yn cael ei ad-dalu:-
    a. os yw'r derbynnydd, ar ôl derbyn unrhyw randaliad o grant cymhelliant, yn methu â bodloni unrhyw feini prawf cymhwysedd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru, a nodir yn y Cynllun hwn, mewn perthynas â rhandaliad dilynol
    b. os yw'r derbynnydd, yn ei gais am grant cymhelliant, neu mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth ffug neu wybodaeth sy'n gamarweiniol

c. os oes tystiolaeth nad oedd y derbynnydd erioed wedi bwriadu cwblhau'r rhaglen gymwys, neu nad oedd, ar ôl ei chwblhau, erioed wedi bwriadu mynd i addysgu.

## Talu'r grantiau cymhelliant

23. Gellir talu grantiau cymhelliant fesul pa bynnag nifer o randaliadau, ac ar ba bynnag adegau, ag a benderfynir gan Weinidogion Cymru.

24. Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid i sefydliad sy’n darparu rhaglen gymwys, pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwneud hynny, i'w dalu i unigolyn cymwys sydd ar raglen gymwys.

25. Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid, pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwneud hynny, i'w dalu i unigolyn cymwys, wedi i'r unigolyn cymwys gwblhau cyfnod sefydlu yn llwyddiannus.

## Gweinyddu

26. Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliad i sefydliadau sy'n darparu rhaglenni cymwys sy'n dyrannu'r grant cymhelliant i gydnabod y costau gweinyddol a'r costau cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â gwneud y taliadau hynny. Bydd gofyn i’r sefydliadau, fel rhan o unrhyw daliad o'r fath, ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (gweler paragraff 4).

Dyddiad: 25 Medi 2025